**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 20 MEHEFIN 2023, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Phillip Roberts, Gwynedd Williams, Berwyn Parry Jones, Richard Robinson, Ann Lawton, Hefin Jones, Beca Brown.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Rhys Parry

**CLERC:** Meirion Jones

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Lowri Gwyn o Gwmni Cyfieithu Lingo

Kirstie Eckford o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru

Ian Gillespie o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru

Mari Tudur o Grŵp Cynefin

**1164. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1165 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**1166. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1167. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Mai 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1168. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 16 Mai 2023**

**Eitem 1152 -** Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones fod y goeden er cof a'r diweddar Charles Jones wedi gafael yn dda a bod y graffiti ar y fainc wedi ei lanhau

**1169. I dderbyn cyflwyniad gan Gymdeithas Tai Grŵp Cynefin ar Arolwg Anghenion Tai Llanrug**

**Derbyniwyd cyflwyniad gan Mari Tudur, Hwylusydd Tai Gwledig ar waith maent yn ei wneid yn Llanrug ar gyfer adnabod anghenion tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.**

**Bydd yn hyn yn cael ei wneud drwy**

Anfon llythyr at bob aelwyd o fewn yr ardal Cyngor Cymuned yn eu gwahodd i gwblhau arolwg ar lein - copi o'r link isod Gwybodaeth. <https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=wtYyWtrez0uAA1TMIzV4fKUBvLMGYJxDkuH5TPNVdN1UMjRYMURQNFdVVEowWFZVT0tYWUUyNlBZVyQlQCN0PWcu>

Trefnu Diwrnod Agored hyn wedi ei drefnu ar gyfer

Yn dilyn derbyn yr holl wybodaeth bydd y wybodaeth yn cael ei gyfuno gyda' wybodaeth ffeithiol ar gofrestr Opsiynau tai Cyngor Gwynedd a Thai Teg a'i gynnwys o fewn yr Adroddiad Anghenion Tai.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y cyflwyniad a'r wybodaeth

**1170. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Phillip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 12 o Fehefin 2023.

Etholwyd y Cynghorydd Phillip Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a'r Cynghorydd Ann Lawton yn Is-gadeirydd. Adnabuwyd blaenoriaethau ar gyfer 2022 / 2023 a bod y pwyllgor wedi gallu eu gwireddu. Ymysg blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer 2023 / 2024 adnabuwyd y canlynol

- Sicrhau fod ein cais i mewn yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn cyn diwedd mis Gorffennaf.
- Parhau gydag asesiadau risg
- Mabwysiadu polisi cofebion
- Arwyddion i'r giatiau i atgoffa ymwelwyr i gau'r giatiau
- Placiau yn y gofod

Ymysg materion eraill a drafodwyd oedd

Cyfarfod a'r contractwr sydd yn torri'r gwair yn y fynwent yn unol ag amodau'r tendr.

Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael grant gan y Grid Cenedlaethol

Cyhoeddi rheolau pâr torchau blodau'r Nadolig a dyddiadau eraill fel Sul y Mamau, Tadau ayyb

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y wybodaeth

**1171. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd  y pwyllgor ei fod wedi cyfarfod ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd

- Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y pwyllgor ar gyfer 2023-2024
- Etholwyd y Cynghorydd Phillip Roberts yn Is-gadeirydd ar gyfer 2023-2024
- Adolygwyd y gyllideb a phenderfynwyd peidio gwneud unrhyw addasiadau ar hyn o bryd oherwydd mai dim ond yr ail fis ydi hyn o'r flwyddyn ariannol gyfredol.
- Nodwyd fod cyllideb eisoes yn ei le ar gyfer y gliniaduron
- Amcangyfrifwyd gwariant ar gyfer y fynwent a'r meysydd chwarae yn ystod 2023-2024 ac fe nodwyd fod y gwariant eisoes wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer 2023-2024
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd a'r clerc i fynd drwy becyn Cymorth cyllid a Llywodraethu gyda'r clerc i adnabod pa bolisïau sydd yn eu lle, pa rai sydd angen a pa rai sydd ddim eu hangen.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1172. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd

- Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024
- Etholwyd y Cynghorydd Gwynedd Williams yn Is-gadeirydd y pwyllgor ar gyfer 2023-2024
- I gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w atgoffa o fin baw ci yn Y Bwlch, Cwm y Glo
- Ein bod yn disgwyl i asesiad risg y caeau chwarae gael eu cario allan ac yn dilyn derbyn yr asesiadau, yna trefnu i gyfarfod ar y caeau
- Adroddwyd fod achos o graffiti ar y fainc yng nghae Pwll Moelyn a bod ein contractwr wedi ei lanhau
- I gysylltu â Chyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod parthed materion trafnidiaeth ger cae chwarae Pwll Moelyn
- Prynu mwy o Gennin Pedr i'r ardal
- Parhau gyda'r trefniadau casglu sbwriel
- Trefnu cyfarfod gyda'r Ysgol Gynradd i sefydlu trefniadau ar gyfer coeden Nadolig 2023
- Trefnu hyfforddiant diffibs

- Cerdded ein llwybrau cyhoeddus
- Paratoi rheolau ar gyfer y meysydd chwarae / parc sglefrio / campfa tu allan
- Edrych fewn i'r posibilrwydd o allu creu mapiau digidol
- Tynnu'r ddau fin sydd yn y parc sglefrio a rhoi un newydd aml bwrpas ynddo a gofyn i Gyngor Gwynedd ei wagio.
- I dderbyn diweddariad ar sefyllfa Glymog Siapan

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1173. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod tipyn bach o newid wedi bod i'r rhai oedd yn derbyn bwyd. Rhai wedi tynnu allan o'r cynllun gan ddweud eu bod yn ddiolchgar iawn o'r cymorth mae'r cynllun wedi gallu ei roi iddynt.

Byddwn yn cyfarfod a Chyngor Gwynedd i wneud cais am grant

Parhau i brynu Wyau a Bara fel arian sydd wedi ei glustnodi o'r grant gyfredol.

Cyfarfod i'w drefnu gyda rheolwyr Fareshare Merseyside i drafod yr anghydfod

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1174. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddiwrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Gwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyfarfod y Cabinet 13 Mehefin**

Adroddiad gan yr Adran Cynllunio yn cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 fydd yn cyflwyno 3 math o dŷ, sef prif gartref, ail gartref a llety gwyliau. Fydd hyn yn golygu bydd angen caniatâd cynllunio i newid tŷ preswyl i ail gartref neu lety gwyliau. Y bwriad tu ôl i hyn yw sicrhau fod dim mwy o ail gartrefi a lletyau gwyliau yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd lle mae yna ormodaeth yn barod. Bydd yn dod i rym mewn blwyddyn yn dilyn ymgynghoriad.

Adroddiad gan yr Adran Addysg ar ymateb Gwynedd i ymgynghoriad llywodraeth Cymru cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Roedd yr ymateb yn gefnogol o beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei wneud. Dyma ddau o'r prif bwyntiau.

- fod angen ffocws clir a phendant ar ddeilliannau ieithyddol disgyblion ac mai hynny ddylai fod yn brif egwyddor y cynigion ar gyfer y Bil.

- Erbyn 2050 fod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus.

Adroddiad gan yr Adran Tai yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Tai - roedd hwn wedi ei greu pan godwyd y dreth cyngor 50% yn y lle cyntaf, ac wedyn fe godwyd o i 100%. Sydd wedi rhoi cyfle i greu ychydig mwy o gynlluniau, ond ddim gymaint â fasa wedi bod, oherwydd bod costau pethau wedi cynyddu gymaint, sydd yn golygu fod costau rhai o'r cynlluniau sydd ar y gweill wedi mynd i fyny yn sylweddol. Wrth gwrs mae'r premiwm wedi codi i 150% erbyn hyn, ond fod y codiad diwethaf i fynd tuag at gostau ychwanegol digartrefedd. Sydd yn sefyllfa anodd iawn gyda chostau wedi cynyddu oddeutu £3miliwn y flwyddyn. Ystadegyn trist yw bod rhywun yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref bob awr a hanner yng Ngwynedd.

Cyffredinol

Tipyn o broblemau wedi bod yn yr ardal hefo casgliadau gwastraff ac ail-gylchu yn cael eu methu yn aml. Dwi wedi cael cyfarfod gyda swyddogion a'r brif broblem ydi salwch ymysg y gweithlu a rhai peiriannau yn torri yn ychwanegu at y broblem. Mae ganddynt gynlluniau mewn lle ac yn gobeithio y bydd y problemau wedi ei datrys yn y mis neu ddau nesaf.

Rwyf wedi mynychu, a siarad, yn is-bwyllgor trwyddedu Gwynedd ynglŷn â chais Parc Gwyliau Bryn Teg i ymestyn eu trwydded. Wedi troi allan yn well nac oeddwn i wedi ei ddisgwyl. Maent wedi tynnu cais am reslo a bocsio yn ôl ac wedi cynnig tynnu adloniant tu allan i ffwrdd o'r drwydded. Hefyd maent wedi cytuno i amodau mwy tyn. Mae hwn yn well trwydded o safbwynt trigolion na cynt.

Beca a finnau a gweddill y cabinet wedi mynychu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon, fel rhan o benderfyniad y cyngor i fod yn net zero erbyn 2030.

Beca wedi bod ar ymweliad a Tyddyn Teg a gardd Ysgol Brynrefail hefo Hywel Williams. Roedd yr ysgol wedi cael grant i ddatblygu'r cysylltiad fel bod criw Tyddyn Teg yn dod i'r ysgol i addysgu'r disgyblion sut i dyfu cynnyrch ac yn y blaen. Mae yna lwybr troed yn rhedeg o Dyddyn Teg i'r ysgol ond fod gwaith clirio arno fo. Fydd Beca yn gweithio hefo Sasha, cynghorydd Bethel i geisio clirio'r llwybr fel bod y disgyblion yn gallu cerdded rhwng y ddau, yn lle defnyddio bws mini fel sydd yn digwydd rŵan

Beca wedi bod yn gwirfoddoli yn y caffi trwsio yn y Sefydliad Coffa dydd Sadwrn, roedd y caffi wedi bod yn llwyddiant mawr gyda nifer yn mynychu i gael pethau wedi trwsio. Ymysg eraill roedd stondinau trwsio beics, pethau trydanol a dillad. Dwi'n siŵr fydd digwyddiad arall yn y dyfodol.

Partneriaeth Biosffer Dyfi.

Wnes i fynychu fy nghyfarfod cyntaf o Bartneriaeth Biosffer Dyfi. Cafodd Biosffer Dyfi ei greu yn 2009 fel rhan o deulu biosfferau UNESCO, yr unig un yng Nghymru. Y syniad yw ceisio adeiladu economi adfywiol wedi ei datgarboneiddio neu – "regenerative decarbonised economy".

Y broblem ydi does dim pres yn dod hefo'r datganiad. Llawer o brosiectau bach yn digwydd o fewn yr ardal. Mae yna gyfarfod wedi bod hefo Julie James, i geisio cael rhyw ymrwymiad o arian ganddi i alluogi prosiectau mwy cael eu hariannu. Roedd y rhai a fynychodd yn teimlo eu bod wedi cael gwrandawiad teg. Gawn ni weld be ddaw.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1175. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0370/23/RA
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Diwygio amod 2 ar ganiatâd Cynllunio C21/0270/239/DT er mwyn lleihaumaint yr estyniad unllawr yn unol â'r cynlluniau diwygiedig .
**Ymgeisydd:** Lyndsey a Gavin Thomas a Parry
**Asiant:** Maredudd ab Iestyn (Maredudd ab Iestyn RIBA)
**Cyfeiriad:** 1, Tai Hermon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PE
**Cyfeirnod Grid:** 252990.78, 363384.93
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C23/0136/23/TC
**Math o Gais:** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon
**Bwriad:** Parhau i ddefnyddio tir heb gydymffurfio ag Amodau 3 ac Amod 4 o ganiatâd cynllunio ceirnod 3/23/174C Mae amod 3 i ganiatâd 1981 yn datgan na ddylid lleoli mwy nag 20 o garafanau teithiol ar y . ardal ag ymyl coch ar y cynllun a gyflwynwyd dyddiedig 31 Mawrth , 1981' Mae Amod 4 yn nodi y bydd y safle a ganiateir drwy hyn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer lletya carafanau o 1af . Mawrth i 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn'. Mae'r amodau hyn wedi'u torri'n rheolaidd ers 1981 gydag uchafswm o 25 carafán wedi'u gosod ar y tir bob amser o'r flwyddyn.
**Ymgeisydd:** Mr Anthony Vaughan Jones
**Asiant:** Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)
**Cyfeiriad:** Maes Carafanau Twll Y Clawdd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AZ
**Cyfeirnod Grid:** 253145.79, 363586.6
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim sylw

c) **Rhif y Cais:** C23/0423/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Adeiladu estyniad deulawr talcen a porth. Gwaith adfer mewnol i dy presennol. Dymchwel porth presennol a 'lean-to' . Adeiladu swyddfa gardd.
**Ymgeisydd:** Tim & Paula Leather & Williams
**Asiant:** Mr Jonathan Huthwaite (Evergreen Architects)
**Cyfeiriad:** Erw Fair, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DU
**Cyfeirnod Grid:** 254704.43, 362607.84
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais ond sicrhau fod y defnydd yn aros fel Swyddfa Gardd ac nid yn cael ei droi yn anecs ar gyfer gwyliau

d) **Rhif y Cais:** C23/0394/23/RA
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Rhyddhau amod 5 (edrychiad allanol) ar ganiatâd cynllunio C21/1132/23/DT /.
**Ymgeisydd:** Mr Thomas Williams
**Cyfeiriad:** Pen Y Graig Lôn Ceunant, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4SA
**Cyfeirnod Grid:** 253086.73, 361239.85
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif y Cais:** C23/0359/23/AC
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Diwygio amod 2 (cynlluniau) ac amod 5 (clwydfan ystlumod) ar ganiatâd cynllunio C22/1140/23/DT er mwyn newid dyluniad y clwydfan ystlumod.
**Ymgeisydd:** Mr Mads Huuse
**Asiant:** Mr Geraint Efans (Geraint Efans Pensaer)
**Cyfeiriad:** Awel Y Mynydd, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253371.78, 361284.45
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim sylw

Daeth y cyfarfod i ben am 21:05

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 18 Gorffennaf 2023